No.

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 23 Hydref, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: G. Chapman (Cadeirydd ac Aelod Lleyg); N. Ireland (Is-Gadeirydd ac Aelod Lleyg); M. Evans (Aelod Lleyg); Cynghorwyr P. Drake, E. Goodjohn, M.J. Hooper, J.M. Norman, J. Protheroe ac N.J. Wood.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr H.C. Hamilton, W.A. Hennessy, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) a E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd)

## 470 CYHOEDDIAD -

Cyn i fusnes y Pwyllgor ddechrau, darllenodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb oedd yn bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio ar y rhyngrwyd a bod y recordiad hwn yn cael ei archifo i'w weld yn y dyfodol. "

## 471 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi, 2023 fel cofnod cywir.

## 472 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## 473 DIWEDDARIAD DIOGELU BLYNYDDOL (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Cabinet ar 7 Medi 2023 gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn dilyn cyflwyniad y swyddog, tynnodd N. Ireland sylw at y ffaith y cafwyd mwy o gyfranogiad gan rieni, nad oeddent wedi ymgysylltu o'r blaen trwy gynnal cyfarfodydd o bell drwy'r pandemig. Penderfynwyd nawr y byddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb yn unig, a gofynnodd Mr Ireland am y rhesymeg y tu ôl i hynny. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod budd mewn darllen iaith y corff a chyfathrebu di-eiriau.

Cyfeiriodd N. Ireland at yr 823 o adroddiadau Diogelu a dderbyniwyd yn ystod 2022/23, ac o'r rhain, cafodd 302 eu hanfon ymlaen i'r adran ymholiadau ac o'r rheiny cafodd 70% eu cwblhau o fewn y raddfa amser saith diwrnod gwaith. Holodd N. Ireland a oedd unrhyw rai mawr y tu allan i'r raddfa amser saith diwrnod gwaith ac a oedd unrhyw ddysgu i sicrhau bod y raddfa amser yn cael ei chyflawni. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai'n gwirio'r wybodaeth ac yn adrodd yn ôl drwy e-bost.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y 55 o Gynadleddau Amddiffyn Plant cychwynnol a arweiniodd at 151 o blant yn dod yn destun Cofrestru Amddiffyn Plant a chynllunio risg, a gofynnodd a oedd hynny'n cynnwys Plant sy'n Derbyn Gofal. Amlygodd y Cadeirydd effaith bosibl deddfwriaeth newydd Llywodraeth Cymru yn mynnu y byddai'n rhaid lleoli Plant sy'n Derbyn Gofal sydd angen gofal preswyl, gyda sefydliad neu gartref di-elw. Eglurodd y Cyfarwyddwr fod nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant yn wahanol i nifer y plant sy'n derbyn gofal. O ran Deddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, roedd dau fath gwahanol o lety a fyddai'n cael eu hystyried fel rhai sy'n gwneud elw o bosibl. Roeddent yn ymwneud â threfniadau maethu annibynnol a chyfleuster preswyl. Byddai nifer y lleoliadau ar gyfer y Fro yn tueddu i fod rhwng 10 a 15. Roedd Bro Morgannwg wrthi'n cwblhau ei gyfleuster preswyl ei hun a fyddai'n cael ei redeg gan ddarparwr trydydd sector. Y gobaith oedd y byddai Llywodraeth Cymru yn caniatáu rhai eithriadau pan fyddai'r trefniadau newydd yn cael eu cyflwyno yn 2027, gyda lleoliadau a wnaed cyn hynny yn cael parhau.

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â nifer yr aelodau nad ydynt wedi cwblhau gwiriad GDG, dywedodd y Cyfarwyddwr fod yr adroddiad yn adlewyrchu'r sefyllfa ym mis Tachwedd 2022, ond y sefyllfa bresennol oedd bod yr holl wiriadau wedi'u cwblhau.

Yn dilyn hynny

PENDERFYNWYD – Y DYLID nodi cynnwys yr adroddiad.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

474 ADRODDIAD HUNANASESU BLYNYDDOL DRAFFT TERFYNOL CYNGOR BRO MORGANNWG 2022/23 (CYF) –

Cafodd y cyfeiriad gan y Cabinet ar 19 Hydref 2023 ei gyflwyno gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y Cabinet wedi ystyried sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a sylwadau a wnaed gan Bwyllgorau Craffu'r Cyngor.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adolygu'r Adroddiad Hunanasesiad Blynyddol Drafft Terfynol ar gyfer 2022/23 a chyfeirio unrhyw sylwadau at y Cabinet i'w hystyried ar 2 Tachwedd 2023.

Wrth gael cais i wneud sylw, cododd Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y pwyntiau a'r sylwadau canlynol:

- Cyfeiriodd y Cynghorydd M. Hooper at y sylwadau blaenorol a wnaed gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac yn benodol sylwadau yn ymwneud â hygyrchedd yr adroddiad yr oedd ganddo'r farn wrthgyferbyniol yn enwedig gan fod cymhlethdodau ynghylch y ffordd y mynegwyd barn benodol yn yr adroddiad, yn enwedig mewn perthynas â chynnydd yn y Dreth Gyngor a gostyngiad mewn gwasanaethau. Cyfeiriodd y Cynghorydd Hooper hefyd at y ddedfryd yn ymwneud â Brexit, a dywedodd bod angen rhagor o fanylion ynghylch yr effaith felly roedd angen mwy o ddyfnder. Cyfeiriodd y Cynghorydd Hooper hefyd at sylwebaeth yn ymwneud â datblygu cyfarfodydd Hybrid, a dywedodd bod rhywfaint o amwysedd i hynny gan nad oedd y Cyngor yn gallu cynnal cyfarfod hybrid.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd E. Goodjohn at ymgysylltu â'r cyhoedd gan nodi ei fod yn edrych ymlaen at y setiau data llawn a chanlyniadau'r arolwg barn gyhoeddus. Dywedodd y Cynghorydd Goodjohn ei bod yn bwysig i'r Cyngor gyfathrebu â'r cyhoedd ynghylch ei flaenoriaethau a'i heriau beirniadol. Yn ogystal, dywedodd y gallai'r Cyngor wneud mwy i hyrwyddo dealltwriaeth y cyhoedd o sut roedd y Cyngor yn defnyddio ei adnoddau ac i egluro'n fanylach sut y cyflawnir camau gweithredu fel y nodir mewn Cynlluniau Gwasanaeth. Roedd angen asesiad gonest o sut roedd y Cyngor yn defnyddio ei adnoddau a sut yr oedd yn ymgysylltu â'r cyhoedd.
- Dywedodd y Cadeirydd, Mr G. Chapman, ei bod yn bwysig i'r Cyngor amlinellu i'r cyhoedd bod y rhan fwyaf o'i gyllideb yn cael ei gwario ar addysg a gwasanaethau cymdeithasol a oedd yn golygu, ynghyd â'r adrannau hynny, bod y Cyfarwyddiaethau gwasanaethau eraill yn wynebu pwysau ariannol eithafol. Felly, efallai nad yw'r cyhoedd yn ymwybodol o lle y gwariodd y Cyngor ei arian a hefyd lefel y disgresiwn (cyfyngedig) a oedd gan y Cyngor.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd J. Protheroe at staff asiantaeth a chroesawodd fod y Cyfarwyddwr wedi nodi bod dadansoddiad pellach ar y gweill i ddeall yn well sut a pham y gwariodd y Cyngor swm mor fawr o arian ar staff asiantaeth.
- Dywedodd y Cynghorydd J. Norman fod y rhan fwyaf o bobl ond yn gwerthfawrogi'r gwasanaethau a ddefnyddiwyd ganddyn nhw, ac nid oedd y rhan fwyaf yn ymwybodol o'r ystod lawn o wasanaethau yr oedd y Cyngor yn eu hariannu. Felly, roedd yn bwysig sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol nad oedd y Cyngor yn ariannu tyllau a goleuadau stryd yn unig gan fod gwasanaethau statudol yr oedd gofyn i'r Cyngor eu darparu.

Wedi ystyried cyfeiriad y Cabinet,

PENDERFYNWYD –

(1) Y DYLID nodi cynnwys yr adroddiad.

(2) Y DYLID hysbysu'r Cabinet am farn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, sef:

- Hygyrchedd – egluro bod rhai’n anghytuno bod y ddogfen yn hawdd ei chyrchu gan y teimlid y gallai'r ddogfen fod yn anodd ei darllen i rai aelodau o'r cyhoedd gan fod rhai cymhlethdodau ynghylch y ffordd y mynegwyd barn benodol yn yr adroddiad, yn enwedig mewn perthynas â chynnydd yn y Dreth Gyngor a gostyngiad mewn gwasanaethau.
- Brexit – cynnwys rhagor o fanylion ynghylch effaith Brexit neu i'r Cabinet ystyried dileu'r cyfeiriad hwn.
- Cyfarfodydd hybrid – y dylai'r ddogfen hunanasesu adlewyrchu nad yw'r Cyngor wedi gweithredu ateb cyfarfodydd hybrid a bod hyn bellach yn fater brys i'w ddatrys. Roedd teimlad bod yr ail gyfeiriad yn yr asesiad yn fwy cywir na'r cyntaf.
- Ymgysylltu a chyfathrebu â'r cyhoedd – y dylid amlinellu i'r cyhoedd sut mae'r Cyngor yn gwario ei arian a'r meysydd blaenoriaeth y dyrannwyd yr arian iddynt fel rhan o gyfathrebu'r Asesiad ac, yn benodol, gyllideb y Cyngor. Tynnu sylw hefyd at y ffaith bod y rhan fwyaf o gyllideb y Cyngor (tua 75%) wedi'i dyrannu i addysg a gwasanaethau cymdeithasol a oedd yn golygu bod pob maes gwasanaeth arall o dan bwysau cyllidebol eithafol ynghyd â'r adrannau hynny.
- Staff yr Asiantaeth - cynnal adolygiad manwl i ddeall pob agwedd ar y meysydd lle mae'r Cyngor yn gwario ar gyfer staff asiantaeth. Gwneud hyn fel rhan o’r gwaith i ddatblygu cynigion cyllideb y Cyngor ar gyfer 2024/25.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1 a 2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

475 DIWEDDARIAD CH2: RHAGLEN WAITH AC AMSERLEN ARCHWILIO CYMRU 2023/24 - CYNGOR BRO MORGANNWG (CAC) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan S. Clements (Archwilio Cymru), a'i ddiben oedd rhoi gwybod i'r Aelodau am ddiweddariad Ch2 o amserlen rhaglen waith Archwilio Cymru fel sy'n cyd-fynd â Chynllun Archwilio Blynyddol Bro Morgannwg 2023/24.

Roedd Atodiad A i'r adroddiad yn amlinellu cynnydd Ch2 ar raglen waith ac amserlen Archwilio Cymru fel sy'n cyd-fynd â Chynllun Archwilio Blynyddol Bro Morgannwg 2023/24.

Gofynnwyd i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adolygu a nodi'r cynnydd a wnaed ar Raglen Waith Archwilio Bro Morgannwg hyd at Ch2 ac ar ôl ystyried, cyfeirio’r adroddiad i’r Cabinet i’w arolygu.

Holodd y Cadeirydd ynghylch amseriad yr adolygiad i gynaliadwyedd ariannol, gan nodi y gallai fod angen rhywfaint o hyblygrwydd o ystyried y byddai'n ofynnol i'r Cyngor bennu ei gyllideb yn ystod mis Mawrth. Dywedodd S. Clements fod y sylw wedi'i nodi a'i gymryd i'w ystyried.

Ar ôl ystyried yr adroddiad,

PENDERFYNWYD –

(1) Y DYLID nodi cynnwys yr adroddiad.

(2) Y DYLID cyfeirio’r adroddiad at y Cabinet iddynt fwrw golwg drosto.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Galluogi’r Cabinet i fwrw golwg dros y Rhaglen Gwaith Archwilio.

476 CYNNYDD YN ERBYN ARGYMHELLION RHEOLEIDDIO ALLANOL A CHYNIGION AR GYFER GWELLA (MEDI 2023) (CAC) –

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol yr adroddiad a'i ddiben oedd cyflwyno cynnydd hyd yma wrth fynd i'r afael ag argymhellion presennol a chynigion gwella gan reoleiddwyr allanol y Cyngor.

Amlinellodd yr adroddiad gynnydd hyd yma (Medi 2023) yn erbyn ei holl argymhellion a'i gynigion rheoleiddio allanol presennol ar gyfer gwella.

Yn unol â’r trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol, rhoddwyd ystyriaeth gan wasanaethau perthnasol y Cyngor i'r canfyddiadau a geir mewn adroddiadau lleol a chenedlaethol fel y’u cyhoeddwyd, a chamau gweithredu a ymgorfforwyd yn Nhraciwr Mewnwelediadau Bwrdd Mewnwelediad Strategol y Cyngor drwy gydol y flwyddyn fel y bo'n briodol. Cafodd y camau hyn eu monitro gan y Bwrdd Mewnwelediad Strategol a'u hadrodd i’r Tîm Arweinyddiaeth Strategol, Pwyllgorau Craffu, y Cabinet a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wrth i waith i fynd i'r afael â hwy fynd yn ei flaen. Cafodd cynnydd ei fonitro hefyd gan gydweithwyr Archwilio Cymru drwy gydol y flwyddyn fel rhan o'r Cynllun Rheoleiddio Blynyddol.

Gwnaed cynnydd cadarnhaol wrth ymateb i feysydd gwella rheoleiddiol. Roedd 53 o gamau gweithredu yn parhau yn y traciwr mewnwelediadau gyda 87% o gamau gweithredu (46) wedi’u dynodi’n statws perfformiad gwyrdd (COG), 6 yn oren, ac 1 yn goch.

O'r 26 cam gweithredu yn ymwneud ag argymhellion rheoleiddio lleol, roedd 20 yn wyrdd, roedd 5 yn oren, ac roedd 1 yn goch. Roedd y cam gweithred a gafodd statws coch yn ymwneud ag adolygiad Safon Ansawdd Tai Cymru.

Ar hyn o bryd roedd 27 o gamau gweithredu yn y Traciwr Mewnwelediadau yn ymwneud ag argymhellion rheoleiddio cenedlaethol ac o’r rheiny roedd 26 yn wyrdd, ac roedd yr 1 arall yn oren. Roedd y cam gweithredu a gafodd statws oren yn ymwneud ag adolygu Cyllid Trydydd Sector.

O'r 26 cam gweithredu sy'n ymwneud â gwaith rheoleiddio lleol, ystyriwyd bod 7 cam gweithredu bellach wedi'u cwblhau. Roedd y rhain yn ymwneud â'r adolygiad o Wasanaethau Hamdden ar gontract allanol, yr Arolygiad o Wasanaethau Ieuenctid yn y Fro a'r adolygiad o Reoli Gwastraff. Roedd y Pwyllgorau Craffu Perthnasol wedi ystyried Traciwr Mewnwelediad y Bwrdd Mewnwelediad Strategol fel rhan o Adroddiad Perfformiad chwarterol y Cynllun Cyflawni Blynyddol yn Ch1 gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bellach yn cael arolygu yn unol â chylch gwaith y Pwyllgor.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adolygu'r cynnydd a wnaed hyd yma wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a'r cynigion gwella a wnaed gan y rheoleiddwyr allanol fel yr amlinellir yn Nhraciwr Mewnwelediadau'r Bwrdd Mewnwelediad Strategol (sydd wedi'i atodi i'r adroddiad) gydag unrhyw sylwadau a safbwyntiau'n cael eu cyfeirio trwy argymhellion i'r Cabinet.

Byddai ateb ynghylch sefyllfa ddiweddaraf yn ymwneud â'r cam gweithredu a gafodd statws Coch yn gysylltiedig ag adolygiad Safon Ansawdd Tai Cymru, yn cael ei geisio gan y Swyddog perthnasol a'i ddarparu drwy e-bost.

Dywedodd M. Evans (Aelod Lleyg) y byddai'n ddefnyddiol cynnwys statws blaenoriaeth i amlygu'r camau hynny sydd â'r blaenoriaethau uchaf. Cytunodd y Pwyllgor i hynny gael ei awgrymu i'r Cabinet.

Yn dilyn hynny

PENDERFYNWYD –

(1) Y DYLID nodi cynnydd y Cyngor hyd yma wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a'r cynigion gwella presennol a wnaed gan reoleiddwyr allanol y Cyngor.

(2) Y DYLID gofyn i'r Cabinet hwnnw ystyried argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gynnwys Traciwr Statws Blaenoriaeth.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Galluogi'r Cabinet ystyried argymhelliad gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gynnwys Traciwr Statws Blaenoriaeth.

477 GALW I MEWN YN DILYN ARGYMHELLION ARCHWILIO MEWNOL HEB EU GWEITHREDU'N LLAWN ETO (PGAMR) –

Pwrpas yr adroddiad oedd i'r Aelodau gael sicrwydd gan y Cyfarwyddwyr bod camau yn cael eu cymryd i gwblhau argymhellion Archwilio Mewnol y cytunwyd arnynt nad oeddent wedi'u gweithredu'n llawn eto.

Roedd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nifer o swyddogaethau a chyfrifoldebau craidd o fewn ei gylch gorchwyl. Roedd yn derbyn adroddiadau a chyflwyniadau gydol y flwyddyn i'w alluogi i gyflawni'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau craidd hynny'n effeithiol a rhoi hyder iddo yn llywodraethiant ariannol yr Awdurdod.

Yn dilyn cyflwyno adroddiad Monitro Argymhellion Archwilio Mewnol i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi, roedd yr Aelodau angen sicrwydd pellach gan y Cyfarwyddwyr priodol bod camau priodol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â’r argymhellion y cytunwyd arnynt o adroddiadau archwilio 2021/22 ond nad oeddent wedi'u gweithredu'n llawn eto. Felly, gwahoddwyd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Gofynnwyd i’r Pwyllgor ystyried a nodi'r sicrwydd gan y Cyfarwyddwyr priodol ynghylch y camau gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion Archwilio Mewnol a wnaed yn 2021/22 nad oeddent wedi'u gweithredu'n llawn eto.

O ran yr argymhelliad sy'n ymwneud â Diogelu Corfforaethol, a gweithredu cofnod o'r holl staff a oedd wedi mynychu hyfforddiant diogelu Lefel 1, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod y camau gweithredu bellach wedi'u cwblhau a byddai'r Grŵp Diogelu Corfforaethol yn ymgymryd â monitro parhaus.

O ran y ddau gam gweithredu sy'n ymwneud â Seiberddiogelwch, dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol fod y camau cyntaf ar gyfer hyfforddiant Seiberwydnwch ar draws y Cyngor i'w gyflwyno i'r holl staff, wedi'i gwblhau'n rhannol gyda hyfforddiant yn cael ei gynnal ar sail risg, a bydd yn dechrau cael ei gyflwyno dros yr wythnosau nesaf gan ddechrau gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd modiwl hyfforddi o'r enw 'Cyber Ninjas' yn cael ei ddefnyddio o fewn gwasanaethau TGCh, a fyddai hefyd ar gael i Aelodau Etholedig.

O ran seiberwydnwch, gofynnodd N. Ireland a oedd unrhyw gamau y gallai'r Cyngor edrych arnynt cyn gweithredu'r rhaglen hyfforddiant yn llawn, fel awgrymiadau syml. Dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol fod y Cyngor wedi parhau i gyfleu awgrymiadau i staff, a oedd yn cynnwys hyrwyddo negeseuon yn ymwneud ag agor negeseuon e-bost. Yn ogystal, roedd y Cyngor wedi cyflwyno rhai swyddogaethau diogelwch pellach o ganlyniad i Office 365, gyda staff yn cael eu rhybuddio wrth e-bostio y tu allan i'r sefydliad.

Ar gyfer yr ail gamau, a chyflwyno Strategaeth Seiberddiogelwch TGCh, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol fod dogfen strategaeth wedi'i drafftio ac y byddai'n cael ei chyflwyno i gyfarfod nesaf Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth y Cyngor. Yna byddai'n cael ei chyflwyno i Dîm Arweinyddiaeth Strategol y Cyngor, ac os oes angen, yna ymlaen i'r Cabinet.

O ran cynllun yr atodiad, dywedodd y Cynghorydd Hooper y byddai'n dda petai'r swyddog cyfrifol yn cael ei gynnwys. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol y byddai'r cais yn cael ei ateb.

Yna

PENDERFYNWYD –

(1) Y DYLID nodi'r sicrwydd gan y Cyfarwyddwyr priodol ynghylch y camau gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion Archwilio Mewnol a wnaed yn 2021/22 nad oeddent wedi'u gweithredu'n llawn eto.

(2) Y DYLID hysbysu’r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol i roi diweddariad am y sefyllfa mewn perthynas â Diogelu Corfforaethol a seiberddiogelwch yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a drefnwyd ar gyfer mis Chwefror 2024.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1 a 2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

478 RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL WEDI'I DIWEDDARU 2023/24 (PGAMR) –

Diben yr adroddiad oedd rhoi Blaenraglen Waith i'r Aelodau ar gyfer 2023/24.

Roedd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nifer o swyddogaethau a chyfrifoldebau craidd o fewn ei gylch gorchwyl. Roedd yn derbyn adroddiadau a chyflwyniadau gydol y flwyddyn i'w alluogi i gyflawni'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau craidd hynny'n effeithiol a rhoi hyder iddo yn llywodraethiant ariannol yr Awdurdod.

Er mwyn galluogi'r Pwyllgor i roi'r sicrwydd hwn ac i sicrhau ei fod yn ymdrin â'i ystod o gyfrifoldebau, cyflwynid Blaenraglen Waith ym mhob cyfarfod, gan nodi'r adroddiadau i'w cyflwyno mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, i'w cymeradwyo neu eu diwygio, yn ôl yr angen.

Roedd y Blaenraglen Waith wedi’i diweddaru ar gyfer 2023/24 ynghlwm wrth yr adroddiad yn Atodiad A. Gwnaed newidiadau i adlewyrchu penderfyniadau a wnaed mewn cyfarfodydd blaenorol a chynnwys Cyfarfod Arbennig ar 16 Tachwedd, 2023.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo'r Flaenraglen Waith wedi'i diweddaru neu ofyn am newidiadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

Dywedodd y Cadeirydd y dylid nodi y byddai’r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol yn cael eu gwahodd i gyfarfod mis Chwefror i roi sicrwydd parhaus mewn perthynas â Diogelu Corfforaethol a Seiberddiogelwch. Yn ogystal, byddai adroddiad ar Brosiect Cyfalaf Ysgol Stanwell yn dod yn ôl i'r Pwyllgor maes o law.

Wedi hynny, gwnaeth y Pwyllgor

PENDERFYNWYD –

(1) Y DYLID nodi’r Flaenraglen Waith.

(2) Y DYLID cymeradwyo amserlen yr eitemau ar gyfer y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 16 Tachwedd 2023.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Cadarnhau amserlen yr eitemau ar gyfer y cyfarfod sydd i'w gynnal ar 16 Tachwedd, 2023.